Image not found or type unknown

# Gwybodaeth i weithwyr

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 October 2024

Diweddariad olaf: 17 January 2025


> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle/information-for-workers am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth i gefnogi gweithwyr.

## Beth yw’r ‘Cynnig Rhagweithiol’?

Ystyr ‘Cynnig Rhagweithiol’ yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai yr un gwasanaethau Cymraeg fod ar gael i ddefnyddwyr ag sydd ar gael yn Saesneg.

Mae cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol yn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu deall a'u diwallu, a bod y rhai sy'n defnyddio’r gwasanaethau gofal yn gallu dibynnu ar gael eu trin â’r parch ac urddas maen nhw’n ei haeddu.

Gall peidio â chynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol arwain at beryglu urddas a pharch pobl.

Gallwch weld mwy yn y pecyn gwybodaeth 'Cynnig Rhagweithiol.'

> Pecyn Gwybodaeth Gwireddu'r 'Cynnig Rhagweithiol' - Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
>
> PDF 1MB

## Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae’r modiwl hwn ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr gofal cymdeithasol neu blynyddoedd cynnar a gofal plant sy’n dymuno dysgu mwy am yr iaith Gymraeg, diwylliant a gweithio’n ddwyieithog.

Mae'r modiwl yn cynnwys gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd a beth mae'r gyfraith yn ei ddweud. Mae'n edrych ar yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud a pham.

Mae'r modiwl hefyd yn edrych ar ymarferoldeb gweithio'n ddwyieithog a beth mae hyn yn ei olygu i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'r hyn y gallwch ei wneud i wella profiadau unigolion neu blant sy'n derbyn gofal a chymorth.

Bydd y modiwl yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau ac mae'n cyfri tuag at eich ddatblygiad proffesiynol parhaus os ydych chi wedi cofrestru gyda ni (un awr).

Bydd pawb sy'n ei gwblhau yn derbyn tystysgrif.

## Dechrau'r modiwl

### Stori Keneuoe

Dyma Keneuoe yn siarad am bwysigrwydd y Gymraeg yn ei swydd hi.

Gweld trawsgrifiad

1

00:00:08,433 --> 00:00:10,077

Dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn

2

00:00:10,077 --> 00:00:11,729

darparu gwasanaeth gofal

3

00:00:11,729 --> 00:00:13,760

drwy gyfrwng y Gymraeg

4

00:00:13,760 --> 00:00:16,350

os yw pobl yn dewis gwneud hynny.

5

00:00:16,350 --> 00:00:19,930

Mae lle rydyn ni'n byw a gweithio

6

00:00:19,930 --> 00:00:20,930

yng Ngwynedd

7

00:00:20,930 --> 00:00:23,494

yn lle Cymreig iawn

8

00:00:23,494 --> 00:00:25,700

lle mae'r rhan fwyaf o bobl

9

00:00:25,700 --> 00:00:28,304

rydyn ni'n edrych ar eu hôl a gofalu amdanynt

10

00:00:28,304 --> 00:00:32,000

wedi byw eu bywydau nhw

11

00:00:32,000 --> 00:00:33,639

drwy gyfrwng y Gymraeg

12

00:00:33,639 --> 00:00:35,315

ers blynyddoedd.

13

00:00:36,050 --> 00:00:38,588

Dyma sy'n naturiol iddyn nhw.

14

00:00:38,588 --> 00:00:44,921

Felly dwi'n meddwl ei bod yn bwysig iawn

15

00:00:44,921 --> 00:00:46,476

gallu helpu nhw

16

00:00:46,476 --> 00:00:48,309

i gario ymlaen efo'u bywydau

17

00:00:48,309 --> 00:00:49,760

fel maen nhw'n gwybod

18

00:00:49,760 --> 00:00:50,955

a'r ffordd maen nhw'n gyfarwydd â hi.

19

00:00:51,163 --> 00:00:53,828

Fe ddaeth Keneuoe drosodd i fyw yn y Bala

20

00:00:53,828 --> 00:00:55,418

yn ôl yn 1997

21

00:00:55,418 --> 00:00:58,430

a hithau'n gwbl ddi-gymraeg.

22

00:00:58,430 --> 00:01:00,070

Yn ei swydd bresennol

23

00:01:00,070 --> 00:01:02,059

mae hi'n ysbrydoliaeth

24

00:01:02,059 --> 00:01:04,520

ac mae wedi parhau i ddatblygu

25

00:01:04,520 --> 00:01:08,267

a chadw i ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith.

26

00:01:09,065 --> 00:01:10,979

Dim ond pum mlynedd yn ôl

27

00:01:10,979 --> 00:01:13,493

ymunodd Keneuoe â'r maes gofal

28

00:01:13,493 --> 00:01:14,562

ac yn ei geiriau ei hun

29

00:01:14,562 --> 00:01:15,909

mae'n difaru ei bod heb ddod

30

00:01:15,909 --> 00:01:17,603

llawer iawn yn gynt.

31

00:01:18,262 --> 00:01:19,921

Maen nhw'n gwybod y galla i siarad Cymraeg

32

00:01:19,921 --> 00:01:22,748

ac maen nhw wedi setlo i lawr yn dda

33

00:01:22,748 --> 00:01:24,439

achos fy mod i'n rhoi amser iddyn nhw,

34

00:01:24,439 --> 00:01:26,679

eistedd lawr i siarad efo nhw

35

00:01:26,679 --> 00:01:34,820

ac mae hyn wedi eu galluogi i fynegi

36

00:01:34,820 --> 00:01:37,197

unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw

37

00:01:37,197 --> 00:01:41,229

neu dim ond rhannu hanes

38

00:01:41,229 --> 00:01:45,029

a chael sgwrs fwy manwl efo nhw

39

00:01:45,029 --> 00:01:47,429

trwy'u hiaith nhw,

40

00:01:47,429 --> 00:01:49,289

trwy'r iaith maen nhw wedi dewis.

41

00:01:49,289 --> 00:01:52,498

Felly mae hynny'n bwysig yn fy marn i.

42

00:01:52,498 --> 00:01:54,370

Dwi'n falch fy mod i'n

43

00:01:54,370 --> 00:01:55,240

gwneud gwahaniaeth.

## Gwiriwr lefel iaith Cymraeg

Gall gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru bellach ddefnyddio rhaglen ar-lein am ddim i asesu eu sgiliau Cymraeg.

Rydyn ni wedi cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu 'Gwiriwr Lefel' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

Mae'r Gwiriwr Lefel yn asesiad ar-lein i'ch helpu i ddarganfod lefel eich Cymraeg o ran sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Rydych chi'n cwblhau cyfres o asesiadau ar-lein, ac mae eich canlyniadau yn nodi lefel eich Cymraeg - o lefel mynediad hyd at hyfedredd.

Gall unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ddefnyddio'r Gwiriwr Lefel i asesu eu gallu yn y Gymraeg. Mae am ddim i'w ddefnyddio ac ar gael ar ffonau symudol, tabledi a chyfrifiaduron.

## Defnyddio'r gwiriwr lefel iaith

## Cyrsiau Cymraeg Camau

Ar ôl cwblhau'r asesiad, y cam nesaf i rywun sydd â diddordeb i ddysgu Cymraeg yw cofrestru ar un o'n cyrsiau Camau. Mae'r cyrsiau yn rhad ac am ddim ac wedi eu creu yn arbennig ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'n cynnig dysgu hyblyg drwy gyrsiau byr sy'n canolbwyntio ar y geiriau a thermau y mae gweithwyr eu hangen fwyaf wrth gyfathrebu gyda'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.

Mae'n cyfrif tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr gofal cymdeithasol a bydd pawb sy'n cwblhau'r cwrs yn cael tystysgrif.

## Mwy am gyrsiau Camau

## Cysylltu â ni

Os oes gennych chi gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, cysylltwch â ni.